# Cynnwys

Cynnwys
Rhaglen 2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 8
5 - Gwe-ddarlledu 12
6 - E-ysmygu 13
7 - Gwefannau Cynghorau Cymuned a Thref 14
8 - Cyfweliadau Datblygu Personol 15
9 - Darpariaeth hyfforddiant ar ffurf ar-lein 17
10 - Apps iPad a Hyfforddiant 20

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democracy Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00am DYDD MAWRTH, 9 RHAGFYR, 2014**

**10.00am TUESDAY, 9 DECEMBER, 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS**

**(01286) 679 878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed 2.12.14

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

**AELODAETH / MEMBERSHIP (15)**

**Plaid Cymru (7)**
Y Cynghorwyr / Councillors

Selwyn Griffiths
Sian Gwenllian
Annwen Hughes
Mandy Williams-Davies
Michael Sol Owen
Dilwyn Morgan
[sedd wag / vacant seat]

**Annibynnol / Independent (4)**
Y Cynghorwyr / Councillors

Lesley Day
Tom Ellis
Jean Forsyth
Anne Lloyd-Jones

**Llais Gwynedd (3)**
Y Cynghorwyr / Councillors

Anwen Davies
Gweno Glyn
Jason Humphreys

**Llafur / Labour (1)**

Y Cynghorydd / Councillor

Sion Wyn Jones

**Aelod Ex-officio / Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor / Chairman of the Council
Y Cynghorydd / Councillor Dewi Owen

# RHAGLEN

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Medi, 2014 fel rhai cywir

(copi **gwyn** ynghlwm)

**5. GWE-DDARLLEDU**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

(copi **melyn** ynghlwm)

**6. YSTYRIAETH I YSMYGU E-SIGARENNAU MEWN PWYLLGORAU**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

(copi **gwyrdd** ynghlwm)

**7. GWEFANNAU CYNGHORAU CYMUNED a THREF**

Ystyried adroddiad yr Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid

(copi **pinc** ynghlwm).

**8. CYFWELIADAU DATBLYGIAD PERSONOL**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

(copi **glas** ynghlwm)

**9. DARPARIAETH HYFFORDDIANT AR FFURF AR - LEIN**

Ystyried adroddiad y Rheolwr Dysgu a Datblygu, Adnoddau Dynol

(copi **lelog** ynghlwm)

**10. DATBLYGU DEFNYDD I-PADS A HYFFORDDIANT**

Ystyried adroddiad yr Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid

(copi **llwyd** ynghlwm)

# AGENDA

## 1. WELCOME AND APOLOGIES

To receive any apologies for absence.

## 2 DECLARATION OF PERSONAL INTEREST

To receive any declaration of personal interest.

## 3. URGENT BUSINESS

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

## 4. MINUTES

The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee held on 9 September, 2014 be signed as a true record

(**white** copy herewith)

## 5. WEB-CASTING

To consider the report of the Head of Democratic Services

(**yellow** copy herewith).

## 6. CONSIDER THE USE OF E-CIGARETS IN COMMITTEES

To consider the report of the Head of Democratic Services

(**green** copy herewith).

## 7. WEBSITES FOR COMMUNITY COUNCILS

To consider the report on the current situation by IT & Transformation Senior Manager

(**pink** copy herewith).

## 8. PERSONAL DEVELOPMENT INTERVIEWS

To consider the report of the Head of Democratic Services

(**blue** copy herewith)

## 9. ON-LINE TRAINING PROVISION

To consider the report of the Learning and Development Manager, Human Resources

(**lilac** copy herewith)

## 10. DEVELOP THE USE OF I-PADS AND TRAINING

To consider the report of the IT & Transformation Senior Manager

(**grey** copy herewith)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, 09.09.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Lesley Day (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Tom Ellis, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Annwen Hughes a Jason Humphreys.

**Swyddogion:** Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Gweno Glyn, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Mair Rowlands a Mandy Williams-Davies.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Mehefin, 2014 fel rhai cywir.

## 3. YMGYSYLLTU GYDAG AELODAU

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar drafodaethau diweddar a chynigion pellach sy'n cael eu datblygu ar wella ymgysylltu gydag aelodau.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Nodwyd diffyg mewn cyswllt ag aelodau lleol am ddatblygiadau o fewn eu ward.
- Nodwyd nad oedd cynghorwyr bob amser yn gwybod â pha swyddog i gysylltu ar wahanol faterion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a cheisio adroddiad yn ôl ar gynlluniau gweithredu i wella.**

## 4. AMRYWIAETH

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y canfyddiadau a'r cynigion diweddar ynglŷn â gwella amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Nodwyd pryder am wthio hyn yn rhy bell. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd yna fwriad i wneud hynny, ond yn hytrach i fynd at yr ysgolion, ayb, er mwyn hyrwyddo gwaith a rôl cynghorwyr yn egnïol.

- Mynegwyd gwrthwynebiad i'r syniad o sefydlu Fforwm Merched gan fod pob un o'r aelodau yn gwasanaethu ar y Cyngor fel person, yn hytrach nag fel dyn neu ddynes.
- Croesawyd y bwriad i geisio cael pobl ifanc yn yr ysgolion i ddeall y drefn ddemocrataidd. O ran y cyfeiriad penodol yn yr adroddiad at ymgysylltu â Blynyddoedd 12 a 13 mewn ysgolion uwchradd, nodwyd y byddai'n rhaid ymestyn hynny i gynnwys Coleg Meirion Dwyfor yn ogystal.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw waith a gyflawnir yn y maes yma'n cael ei fesur.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Sefydlu Is-grŵp Democratiaeth o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd dan arweiniad y Cadeirydd, gyda'r aelodaeth i gynnwys y Pencampwr Anableddau, y Cynghorydd Peter Read a'r Pencampwr Plant a Phobl Ifanc, y Cynghorydd Mair Rowlands, ynghyd â'r Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Sion Jones, gan hefyd gysylltu â gweddill aelodau'r pwyllgor hwn i'w gwahodd i gymryd sedd ar yr is-grŵp.**

**(b) Ceisio cynnal cyfarfodydd yr is-grŵp drwy gyfrwng fideo gynadledda.**

## 5. MYNYCHU O BELL

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ceisio barn y pwyllgor ar newidiadau i'r Cyfansoddiad i geisio delio â chymhlethdodau posib' gyda mynychu pwyllgorau o bell.

Trafodwyd amrywiol gymalau'r drafft o Reol Gweithdrefn.

Mewn ymateb i bryder am golli cysylltiad o bell, pwysleisiwyd mai mater i'r Cadeirydd oedd rheoli'r cyfarfod a bod rhaid derbyn bod yna elfen o risg, er bod y ddarpariaeth yn llawer cryfach erbyn hyn.

**PENDERFYNWYD mynegi'r sylwadau canlynol ar y drafft o Reol Gweithdrefn i'r Cyngor fel y gellir ei brosesu i'w gynnwys, maes o law, yng Nghyfansoddiad y Cyngor:-**

- **<u>4.17.1</u> - Cytuno y dylid darparu fideo-gynadledda yn swyddfeydd y Cyngor yn Nolgellau a Phwllheli ac yn Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda yng Nghaernarfon i ganiatáu i aelodau ymuno â phwyllgorau o bell.**
- **<u>4.17.2</u> - Y dylid rhestru'r pwyllgorau craffu, y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Iaith fel yr unig rai sy'n gymwys i gael presenoldeb o bell ynddynt, gan nad ydynt yn gwneud penderfyniadau gweithredol.**
- **<u>4.17.3</u> – Y dylai aelod sy'n dymuno ymuno o bell mewn pwyllgor roi o leiaf 4 diwrnod o rybudd i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Dylid cynnwys nodyn ar flaen y rhaglen yn cyfarwyddo'r aelodau i gysylltu â'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu os ydynt yn dymuno ymuno o bell, gan hefyd gynnwys yr un cyfarwyddyd yn yr e-bost i aelodau sy'n cynnwys y linc i'r rhaglen.**
- **<u>4.17.4</u> – Ni chredir bod angen y rheol hon. Mae cael y rheol hon a rheol 4.17.5 (sy'n statudol) yn cymhlethu gweinyddiaeth y pwyllgor heb ychwanegu fawr ar ei reolaeth.**
- **<u>4.17.5</u> – Y dylai nifer yr aelodau sy'n mynychu yn yr ystafell lle cynhelir y cyfarfod fod yn 30% o'r holl aelodau sy'n mynychu'r cyfarfod (boed yn yr ystafell gyfarfod neu'n ymuno o bell).**

- **4.17.6 – Os yw'r cysylltiad yn cael ei golli, mater i'r Cadeirydd yw penderfynu a ddylid gohirio'r cyfarfod ai peidio, ond er cwrteisi, dylai wneud bob ymdrech i gysylltu â'r aelodau sydd ym Mhwllheli a Dolgellau i'w hysbysu o'i benderfyniad.**

**6. GWE-DDARLLEDU**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y datblygiadau gwe-ddarlledu ac yn ceisio sylwadau'r pwyllgor.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Pwysleisiwyd pwysigrwydd rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwe-ddarlledu.
- Awgrymwyd y byddai'n fuddiol gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cabinet gan mai hwy sy'n gwneud y penderfyniadau gweithredol.
- Gofynnwyd i'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid holi faint o '*hits'* mae cofnodion pwyllgorau yn gael ar wefan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**7. GWEFANNAU I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Cyflwynodd y Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi diweddariad o'r cynllun i gefnogi cynghorau tref a chymuned i ddatblygu gwefannau.

Ymhelaethodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid ar Opsiwn 2, sef cydweithio â chynghorau tref a chymuned eraill yn y sir i sefydlu gwefan ar y cyd.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Mynegwyd pryder y byddai'n ddrud i'r cynghorau bychain gynnal y gwefannau yn barhaus.
- Awgrymwyd y byddai'n well i'r cynghorau sefydlu gwefan ar y cyd.

**PENDERFYNWYD parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygiad sefydlu gwefannau i gynghorau tref a chymuned yn ystod 2014/15.**

**8. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei adroddiad yn rhoi diweddariad ar sefyllfa Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig ar gyfer 2013/14.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Nodwyd bod angen cyfleuster prosesu geiriau ar yr Ipad fel y gallai'r aelodau baratoi eu hadroddiadau blynyddol. Eglurodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid fod yna amryw o wahanol Apps ar gael ar gyfer ysgrifennu dogfennau, ond nad yr Ipad oedd y teclyn gorau ar gyfer hynny. Ychwanegodd y gellid treialu rhai pecynnau, ond waeth pa mor dda fyddai'r App, byddai'n rhaid darparu hyfforddiant y tu cefn iddo hefyd.
- Nodwyd bod angen trefnu hyfforddiant cyfoes i'r aelodau ar ddefnydd cyffredinol o'r Ipads.

- Awgrymwyd y byddai cynnwys dyddiadur yn Newyddion Gwynedd yn rhoi braslun o wythnos waith nodweddiadol cynghorydd yn ffordd arall o gynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn mae cynghorwyr yn ei wneud.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd cael y neges allan hefyd bod adnoddau'n brin.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Gofyn i'r Cadeirydd anfon neges allan drwy Raeadr yn atgoffa'r aelodau i gyflwyno eu hadroddiadau blynyddol cyn diwedd y mis.**

**(b) Treialu rhai pecynnau ar gyfer ysgrifennu dogfennau ar yr Ipads gyda'r aelodau a threfnu hyfforddiant cyfoes i'r aelodau ar ddefnydd cyffredinol o'r Ipads gan ofyn i'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid weithio gyda'r Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd i sefydlu amserlen ar gyfer y gwaith.**

**9. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ar drefniadau'r Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Awgrymwyd y byddai'n fuddiol gofyn, maes o law, am adborth gan yr 20 aelod fydd wedi derbyn cyfweliad datblygu personol.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddwy ddogfen genedlaethol ynglŷn â Fframwaith Cymwyseddau a Strategaeth Datblygu Cynghorwyr gan nodi ei bod yn awyddus i gael sylwadau'r pwyllgor arnynt gan y byddai'n cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod i drafod y materion hyn ar 16 Medi.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cyflwyno adroddiad i gyfarfod Mawrth o'r pwyllgor hwn ar ymateb yr 20 aelod i'r cyfweliadau datblygu personol a sut mae'r profiad wedi dylanwadu ar eu gwaith yn dilyn hynny.**

**(b) Cylchredeg y dogfennau cenedlaethol ar ddatblygu cynghorwyr i holl aelodau'r pwyllgor gan ofyn iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau yn uniongyrchol i sylw'r Cadeirydd drwy e-bost.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.55am.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Rhagfyr, 2014** |
| **PWNC** | **Gwe-ddarlledu** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Mae System Gwe-ddarlledu y Cyngor bellach wedi ei osod ac ar 26 Tachwedd, cynhaliwyd sesiwn hyfforddi y gwahoddwyd pob aelod o'r Cyngor iddo. Roedd 41 yn bresennol yn cynnwys rhai aelodau o'r Pwyllgor Safonau.

2. Yn y sesiwn, esboniwyd y rhesymeg dros gyflwyno'r system, adnabuwyd rhai o'r risgiau sydd ynghlwm a'i weithredu a bu peth trafod am yr angen i'r Cyngor lunio canllawiau ar gyfer ymddwyn o dan y drefn a rhai posibiliadau eraill o ran newid trefniadau cyfarfodydd y Cyngor.

3. Roedd barn bendant am rai pethau:-

- Yr angen i gael canllaw cryno (pethau i'w gwneud a'u hosgoi) i'w rannu i bob aelod gyda'r aelodau etholedig eu hunain yn cymryd perchnogaeth o'r canllawiau hynny
- Yr angen am gymorth a hyfforddiant penodol i gadeiryddion pwyllgorau

4. Yn ogystal gwnaed rhai awgrymiadau eraill yn cynnwys:-

- Ymgynghori gyda'r cyhoedd ar y math o eitemau pwyllgor y byddent yn dymuno iddynt gael eu gwe-ddarlledu o fewn yr oriau sydd ar gael
- Addasu'r rheol sydd yn y Cyfansoddiad ar hyn o bryd ar y rheidrwydd i sefyll wrth siarad yn y Cyngor llawn
- Ystyriaeth ynglŷn ag adeiladu egwyl i mewn i gyfarfodydd pwyllgor hir er osgoi camargraff o aelodau yn gadael cyfarfodydd i nôl paneidiau
- Yr angen am bapur byr yn esbonio rhai o'r materion bach trefniadaethol mewn Cyfarfodydd pwyllgor a fyddai'n ddieithr i aelodau o'r cyhoedd sy'n gwylio

5. Atgoffir yr aelodau y byddwn yn dechrau gwe-ddarlledu o Ionawr ymlaen gan hysbysebu ymlaen llaw y cyfarfodydd a fydd yn cael eu gwe-ddarlledu

6. Gwahoddir unrhyw sylwadau pellach gan aelodau'r Pwyllgor a hefyd farn benodol ar y broses o lunio'r canllaw cryno.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Rhagfyr, 2014** |
| **PWNC** | **E-ysmygu** |
| **PWRPAS** | **Ysgogi trafodaeth ar gyfrifoldeb Aelodau Etholedig parthed e-ysmygu** |
| **AWDUR** | **Geraint George<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Fel y mae'r pwyllgor yn ymwybodol, gyda dyfodiad Cyfraith Ddi-Fwg Deddfwriaeth 2007, daeth yn anghyfreithlon i unrhyw un ysmygu mewn unrhyw le oedd yn weithfan caedig i unrhyw berson.

   Mae'r canllawiau sy'n cael eu darparu gyda'r Gyfraith Ddi-Fwg Deddfwriaeth 2007, yn nodi: *"Effaith y gyfraith newydd fydd na chaniateir i chi, eich staff, eich cwsmeriaid na'ch ymwelwyr ysmygu o fewn mangre eich busnes neu eich sefydliad, os ydynt yn 'gaeedig' neu os ydynt yn 'sylweddol gaeedig'.*

2. Datblygwyd polisiau gan y Cyngor i gyd-fynd gyda'r Mesur hwn, ac fe'i addaswyd yn ddiweddar (Rhagfyr 2013) yn sgil dyfodiad e-sigarennau. Mae polisi cyfredol y Cyngor ar gyfer staff yn nodi fel isod

   "*Ni chaniateir ysmygu yn yr adeiladau na'u cyffiniau. Er enghraifft ni chaniateir ysmygu ger mynedfeydd na ffenestri adeiladau'r Cyngor nac unrhyw ardal arall union y tu allan, ble gallai mwg gael effaith ar weithwyr eraill neu gyfleu delwedd negyddol o'r Cyngor. Bydd y Polisi hwn yn gymwys i holl weithwyr y Cyngor. Mae hyn hefyd yn cynnwys y defnydd o e-sigarennau*".

3. Fodd bynnag, nid yw'r polisi yn cynnwys Aelodau Etholedig. Credir ei bod yn Amserol, gyda dyfodiad gwe-ddarlledu a chynnydd cyffredinol mewn niferoedd sy'n defnyddio e-sigarennau i gynnal trafodaeth am ddefnydd aelodau o e-sigarennau, gan nodi pryd yr ystyrir defnydd yn addas neu beidio. Wrth gasglu barn yn anffurfiol yn yr hyfforddiant gwe-ddarlledu diweddar, amlygwyd bod mwyafrif arwyddocaol o blaid gwaharddiad.

4. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a yw am i'r cyngor fabwysiadu datganiad polisi sydd yn ymestyn y gwaharddiad ar y defnydd o e-sigarennau yn adeiladau'r Cyngor a'u cyffiniau i aelodau etholedig

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Rhagfyr, 2014** |
| **PWNC** | **Gwefannau Cynghorau Cymuned a Thref** |
| **PWRPAS** | **I adrodd ar ddatblygiadau gyda grant £500 Llywodraeth Cymru i gael presenoldeb ar y we i Gynghorau Cymuned/Tref** |
| **AWDUR** | **Huw Ynyr**<br>**Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid** |

Cefndir

1. Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu grant o £500 gan Lywodraeth Cymru i roi presenoldeb ar y we i Gynghorau Cymuned/Tref.

2. Mae dau opsiwn wedi eu cynnig:

    a. Opsiwn 1 - fe fydd y swm o £500 yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'r Cyngor Cymuned/Tref er mwyn iddynt ddatblygu gwefan eu hunain. Mae ymchwiliad yn y farchnad yn crybwyll bod cwmnïau'n codi oddeutu £2,500 am wasanaeth o'r math yma a chostau blynyddol oddeutu £250.

    b. Opsiwn 2 - byddai'r £500 y pen yn cael ei gronni er mwyn creu cronfa ddigonol i greu un "prif" wefan fyddai'n cael ei bersonoleiddio ar gyfer pob Cyngor Cymuned/Tref unigol.

3. Fe gysylltwyd â phob Cyngor Cymuned/Tref i adnabod pa opsiwn oedd yn cael ei ffafrio, gyda dros 20 yn dewis opsiwn 2..

4. Fe baratowyd brîff a chysylltu gyda tri cwmni gwefan lleol ar gyfer darparu a chyflwyno opsiwn 2. Yn anffodus, dim ond un cwmni ddaeth yn ôl gyda prisiau a doedd y rhain ddim ffafriol.

5. Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd yn darparu "pecyn y we" ac mae cynnig wedi ei dderbyn y ddarparu a chyflwyno opsiwn 2 i'r Cynghorau Cymuned/Tref oddi fewn y gyllideb o £500 y Cyngor, a hyn am gyfnod o 3 blynedd. Mi fydd angen buddsoddiad pellach o flwyddyn 4 ymlaen.

6. Fe fydd gwybodaeth bellach yn cael ei baratoi i'r Cynghorau Cymuned/Tref cyn y Flwyddyn Newydd, gyda phrosiect mewnol i yrru'r broses yn ei flaen yn cychwyn ar Ragfyr 2ail.

***Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid***

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Rhagfyr, 2014** |
| **PWNC** | **Cyfweliadau Datblygu Personol** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

Cefndir

1. Bydd y pwyllgor yn cofio am yr angen i'r Cyngor gynnig trefn lle mae aelodau yn cael cynnig cyfweliad datblygu personol. Mae Mesur Llywodraeth Leol Cymru, 2011 yn mynnu bod pob cyngor yn cynnig proses i aelodau asesu eu hanghenion datblygu.

2. Yn dilyn trafodaethau blaenorol y pwyllgor hwn, gohebwyd â phob aelod sydd ddim ar y Cabinet i roi'r cynnig hwn iddynt. Bu i 20 o'r 65 aelod rheng-flaen dderbyn Cyfweliad Datblygu Personol yn ystod mis Medi a Hydref eleni, ac adroddir isod ar y meysydd hyfforddiant yn deillio o'r cyfweliadau.

3. Er gwybodaeth, bydd yr aelodau Cabinet hefyd yn gweithredu proses o asesu eu anghenion datblygu, ond bydd y broses a weithredir gan y Cabinet yn cynnwys elfen o reoli perfformiad yn ogystal.

Themâu hyfforddiant a gododd

4. Cododd rhai themâu cyffredinol o'r cyfweliadau, ac yn eu mysg:

- Gwybodaeth am pwy yw pwy / pwy i gysylltu â nhw
- Hyfforddiant gwella sgiliau iaith (Cymraeg)
- Datblygu hyder i siarad yn gyhoeddus
- Delio â sefyllfaoedd anodd
- Cadeirio cyfarfodydd yn fwy hyderus (yn arbennig yn wyneb gwe-ddarlledu)
- Twitter/ Facebook – sut i ddatblygu a defnyddio cyfryngau cymdeithasol
- I-pads
- Paratoi ymgeiswyr sy'n sefyll fel aelodau etholedig am y tro cyntaf
- Mwy o hyfforddiant i aelodau newydd (ar ôl iddynt fod yn llwyddiannus)
- Gwe-ddarlledu

5. Noder fod rhai o'r themâu uchod eisoes yn cael eu cyfarch drwy'r rhaglen hyfforddiant gyfredol, a bu'r cyfweliadau yn fodd o godi ymwybyddiaeth at rhai o'r cyrsiau cyfredol.

6. Yn ogystal, bu'n gyfle i holi pa ffordd oedd y modd gorau o dderbyn hyfforddiant, gyda nifer yn nodi y byddent yn gwerthfawrogi cyfle i dderbyn hyfforddiant mewn grwpiau bach gyda chyfle i holi Pennaeth neu'r hyfforddwr mewn awyrgylch mwy anffurfiol. Nodwyd hefyd y byddai nifer yn gwerthfawrogi hyfforddiant ar-lein (gweler adroddiad pellach am hyn).

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Rhagfyr, 2014** |
| **PWNC** | **Darpariaeth hyfforddiant ar ffurf ar-lein** |
| **PWRPAS** | **Adrodd ar y ddarpariaeth a cheisio arweiniad pellach** |
| **AWDUR** | **Carey Cartwright, Rheolwr Dysgu a Datblygu, Adnoddau Dynol** |

## 1. Cefndir

Daeth cais gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am ddiweddariad am ddarpariaeth hyfforddiant ar ffurf ar-lein, yn sgil trafodaeth yn adroddiadau blynyddol Aelodau.

## 2. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant priodol i gefnogi Aelodau i gyflawni eu rôlau yn effeithiol, a mabwysiadwyd strategaeth *Dysgu a Datblygu* cynhwysfawr, cyn ennill y Siarter Aelodau yn 2009.

Mae'r strategaeth yn pwysleisio datblygiad personol fel rhan o rôl pob Aelod, a bod dyletswydd ar unigolion i gymryd cyfrifoldeb dros adnabod y dysgu sy'n berthnasol iddynt a datblygu eu hunain. Mae'r drefn 'cyfweliadau' i lunio *Cynllun Datblygu Personol* yn cefnogi hyn.

Oherwydd natur amrywiol rôl a dyletswyddau Aelodau Etholedig, mae angen darparu amrediad o feysydd datblygol a theitlau hyfforddiant, gan geisio sicrhau mynediad i bob Aelod at ddysgu priodol. Mae hyn yn cynnwys cyfuniad o sesiynau 'rhannu gwybodaeth' a sesiynau 'datblygu dealltwriaeth a sgiliau'.

Rhaid cydnabod bod nifer o faterion ymarferol i'w goresgyn e.e. pellter teithio oherwydd maint a daearyddiaeth y Sir, ac yn arbennig prinder amser sy'n ei gwneud yn anodd i rai Aelodau fynychu sesiynau ffurfiol.

Mae'n bwysig nodi bod anghenion datblygol unigryw gan bob Aelod, a bod y ffordd y mae pawb yn dysgu yn wahanol - nid yw sesiynau 'traddodiadol' yn siwtio pawb. I'r perwyl yma, mae'r Gwasanaeth *Dysgu a Datblygu* yn ymrwymedig i ddatblygu amrediad o ddulliau dysgu arloesol, sy'n cynnwys *e-ddysgu (Dysgu drwy Dechnoleg)*:

- Defnyddio pob math o dechnoleg ar gyfer dysgu e.e. fideo, modiwlau, ymchwil ar y wê ayyb
    - Daw 'dysgu ar lein' o dan y pennawd yma
- Defnyddio gwahanol ddyfeisiau e.e. i-Pad, *Smartphone*, Gliniaduron, Cyfrifiaduron PC
- Mynediad at gyfleoedd dysgu unrhyw amser ac o unrhyw le (os oes cysylltiad i'r wê)
- Gadael i unigolion ddewis dull datblygol a dysgu priodol, a dysgu ar eu cyflymder eu hunain

Mae tystiolaeth ddiamheuol dros fanteision *e-ddysgu*, ac mae'n cael ei gydnabod fel dull arloesol ac effeithiol o ddysgu, yn arbennig mewn cyfuniad gyda dulliau dysgu eraill (yn aml cyfeirir at hyn fel '*Blended Learning*').

I'r perwyl yma, gellir defnyddio *e-ddysgu* i:

- Gymryd lle rhai sesiynau 'rhannu gwybodaeth' wyneb i wyneb
- Uchafu effaith sesiynau dysgu 'traddodiadol' drwy
    - Ychwanegu manylder a datblygu dealltwriaeth

  - o Atgoffa unigolion o brif bwyntiau'r dysgu

Yn ogystal â hyn, mae'r dechnoleg ar gael i:

- Alluogi sefydliadau i greu deunyddiau dysgu diddorol a deniadol o'r ansawdd uchaf
- Gynnig darpariaeth gyfleus a hyblyg, sy'n hawdd ei defnyddio

Ac wrth gwrs, drwy osgoi amser a chostau teithio, mae *e-ddysgu* yn rhoi gwerth am arian.

**3. Ble'r ydym erbyn hyn**

3.1 Strategaeth *e-ddysgu*

Mae'r tîm *Dysgu a Datblygu* wedi datblygu ac yn gweithredu strategaeth *e-ddysgu* ar gyfer y Cyngor. Mae'r strategaeth yma'n cyfarch yr angen i ddatblygu diwylliant dysgu priodol, gan nodi nad yw cynnig deunyddiau *e-ddysgu* o ansawdd uchel yn ddigon yn ei hun – mae'n rhaid bod unigolion yn dewis y math yma o ddysgu.

3.2 *Swyddog e-ddysgu*

Mae *e-ddysgu* yn greiddiol i ddatblygiadau *Dysgu a Datblygu* dros y blynyddoedd nesaf, ac mae buddsoddiad wedi ei wneud drwy gaffael 'platfform' e ddysgu gan y cwmni 'Learning Pool' a chyflogi *Swyddog e-ddysgu* i ddatblygu safle *e-ddysgu* ar gyfer Cyngor Gwynedd. Mae'n ein galluogi i:

- Greu deunyddiau dysgu dwyieithog ein hunain (yn cynnwys modiwlau, fideo, webinarau ayyb)
- Sicrhau ansawdd yn effeithiol
- Addasu deunyddiau a'u teilwrio ar gyfer grwpiau gwahanol e.e. Aelodau, rheolwyr, staff rheng flaen

3.3 *e-Gwynedd*

Mae safle *e-Gwynedd* wedi ei ddatblygu ac yn gwbl weithredol erbyn hyn, gyda mynediad o unrhyw le sydd â chysylltiad i'r wê.

Mae nifer o ddeunyddiau eisoes wedi eu datblygu yn cynnwys modiwlau *Iechyd & Diogelwch*, *Amddiffyn Plant*, *Cydraddoldeb* a *Diogelu data* - a gellir cael mynediad atynt drwy ddefnyddio i-Pad, Smartphone neu gyfrifiadur

Hefyd mae:

- Fforymau Trafod
- Deunyddiau dysgu e.e. sleidiau, taflenni
- Cysylltiadau i erthyglau, clipiau fideo ayyb
- Mynediad i fodiwlau 'ychwanegol' (datblygiad personol) drwy sustem *Learning Pool* e.e. *Emotional intelligence.*

3.5 Cydweithio

Yn Rhanbarthol (Gogledd Cymru) ac yn Genedlaethol, mae'r agenda cydweithio yn fyw iawn, yn arbennig o ran defnyddwyr *Learning Pool*.

Bu ymgais (drwy'r WLGA) i lunio adnodd Cenedlaethol i Aelodau yng Nghymru, ac addasu deunyddiau sydd eisoes wedi eu datblygu yn Lloegr. Ond er bod Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i hyn, nid yw wedi digwydd hyd yma, ond rydym yn parhau i ystyried y mater.

3.6 Mynediad at y Dysgu

Mae'r pwyslais yng Ngwynedd hyd yma wedi bod ar ddatblygu'r system a deunyddiau, gydag amserlen ar gyfer trefnu mynediad i staff ac Aelodau at y dysgu sydd ar *e-Gwynedd*.

**4. Y Camau Nesaf**

1. Datblygu diwylliant *e-ddysgu* yn y Cyngor, drwy godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a manteision sy'n gysylltiedig â'r math yma o ddysgu
2. Ymestyn mynediad staff ac Aelodau i safle *e-Gwynedd*
    - O ran Aelodau bwriedir dilyn y camau canlynol o Ragfyr 2014:
        i. Codi ymwybyddiaeth am adnodd *e-Gwynedd*
        ii. Rhoi cefnogaeth i Aelodau ar gyfer sut i ddefnyddio
        iii. Cychwyn drwy gyfeirio Aelodau at y modiwl Iechyd & Diogelwch
3. Ymestyn yr amrediad o ddulliau a deunyddiau dysgu ar safle *e-Gwynedd*
    - Erthyglau, dogfennau, clipiau fideo, webinarau, fforymau trafod, newyddion ayyb
    - Cydweithio gyda nifer o Adrannau o fewn y Cyngor i ddatblygu mwy o ddeunyddiau e.e. Diogelu oedolion, Tân ayyb
4. Cyfrannu at brosiect Cenedlaethol '*All Wales Academy for Local Government*' sy'n gweithio tuag at sefydlu safle ar gyfer y 22 o Gynghorau Cymru i gydweithio ar ddatblygu a rhannu deunyddiau *e-ddysgu* i staff ac Aelodau.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Rhagfyr, 2014** |
| **PWNC** | **Apps iPad a Hyfforddiant** |
| **PWRPAS** | **Adrodd ar ddatblygiadau mewn trefniadau hyfforddiant i wneud defnydd gwell o'r iPad ac "apps" i gefnogi'r defnydd** |
| **AWDUR** | **Huw Ynyr**<br>**Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid** |

Hyfforddiant a datblygiadau perthnasol i'r defnydd o'r iPad

1. Bydd y Pwyllgor yn cofio iddynt drafod eu dymuniad i ddatblygu eu defnydd o'r ipads ymhellach, gan eu galluogi i'w defnyddio i fwy nag e-byst a chalendrau yn unig. I'r perwyl hwn, awgrymodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid fod "apps" ar gael a fyddai'n galluogi Aelodau i ddefnyddio'r iPad ar gyfer ffwythiannau fel prosesydd geiriau a thaenlenni.

2. Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n fuddiol treialu'r apps cyn eu rhannu â phawb er mwyn asesu - a oes eu hangen, pa mor ddefnyddiol ydynt a pha mor hawdd ydynt i'w defnyddio. I'r perwyl hwn, mae grŵp o 5 wedi eu hadnabod i gymryd rhan yn y peilot, yn gymysg o Aelodau a swyddogion. Mi fydd y Ddesg Gymorth yn parhau i gefnogi'r Aelodau a'r swyddogion gydau dyletswyddau dyddiol, fodd bynnag, nid oes modd darganfod capasiti rhydd i gefnogi'r gweithgaredd yma'n uniongyrchol.

3. Rwy'n argymell bod yr hyfforddiant yn digwydd law yn llaw gyda dosbarthu'r "apps" fel bod cymorth ac arweiniad ar gael i ddefnyddio'r pecynnau'n effeithiol. Fe fydd y gwasanaeth TG yn dosbarthu'r "apps" gyda gosodiadau diogelwch MobileIron, ond mae'n ofynnol i ddiweddaru MobileIron o Efydd i Aur, sy'n rhan o ddiweddariad corfforaethol.

4. Fe fydd yr "apps" yn cael eu dosbarthu gyda MobileIron Gold yn y Flwyddyn Newydd.

5. Yn ychwanegol, mae rhai aelodau wedi nodi eu dymuniad i dderbyn hyfforddiant pellach ar yr i-pads er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o'r teclyn. Mae sgyrsiau wedi eu cynnal gyda Robin Williams, Prifathro Ysgol Gynradd Llanrug, sy'n ddefnyddiwr brwd o dechnoleg Apple ac mae sesiynau hyfforddi i'w cynnal wedi adolygiad o'r costau a chynnwys yr hyfforddiant.

6. Mae pecyn hyfforddi wedi ei adolygu gyda Robin Williams, Prifathro Ysgol Gynradd Llanrug, gyda'r pynciau canlynol yn cael eu cynnig ar gyfer gwneud defnydd gwell o'r iPad:

    - Pages (prosesydd geiriau)

- Keynote (cyflwyno)
- Numbers (taenlen)
- iBooks
- Calendar
- Facetime
- Camera
- Photos
- Contacts
- Notes
- Cysill (gwiriwr sillafu a gramadeg Cymraeg)
- Settings (yn benodol ar gyfer galluogi gosodiadau Cymraeg)
- Diogelwch a Phreifatrwydd
- Twitter
- Facebook

7. Fe all yr hyfforddiant fod yn gymysgedd o hyfforddiant yn y dosbarth ac o bell, gyda'r safle ar gyfer hyfforddiant yn y dosbarth i'w gadarnhau, fodd bynnag, mae'n rhaid nodi bod gan Ysgol Gynradd Llanrug adnoddau gwych ar gyfer cynnal y math yma o hyfforddiant. Bydd yr hyfforddiant o bell yn cael ei becynnu ar iTuneU, sef pecyn dysgu a hyfforddi sy'n cael ei gyflenwi gan Apple ac ar gael ar yr iPad.

8. Costau hyfforddi – fe fydd angen rhyddhau Robin Williams o'i ddyletswyddau dysgu ac fe fydd angen cyflogi athro/athrawes llanw er mwyn yn ystod y cyfnod yma.

***Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid***